

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Harold Lloyd (Tanyfron) oedd wedi symud yn ddiweddar o gartref Hafan Gwydir yn Llanrwst i'r Hen Ficerdy ym Mhandy Tudur. Cydymdeimlwn â'i deulu oll, a hefyd â Marian Jones (Peniel) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei thad yn ddiweddar. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Harold Pierce (Llanefydd) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen ddechrau'r wythnos hon. Parhawn i gofio amdano ef a'r teulu yn ein gweddiâu, gan hyderu y bydd yn profi daioni'r Arglwydd yn ei gynnal, ac yn ei iachau yn fuan iawn. Yn Ysbyty Glan Clwyd ers dechrau'r wythnos y mae Dinah Roberts (Llanfair). Gweddiwn y caiff hithau wellhad buan ac y bydd iddi brofi agosrwydd yr Arglwydd yn ei hangen. Erbyn hyn mae Victor Vaughan (Saron) a Robert Roberts (Llanefydd) wedi cael eu symud i'r Infirmari, ac yn parhau yno hefyd y mae Menna Owen (Cefn Meiriadog) er yn disgwyl cael mynd oddi yno bob dydd rwan. Cyflwynwn bob un ohonynt yn dyner iawn i'r Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodu drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Mae'n dda cael adrodd fod Trefor Jones (Cefn Meiriadog) wedi cael dychwelyd adref yn dilyn treulio wythnosau lawer yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cywiraf ato yntau, gan weddio y bydd yn cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn ei amgylchynu. Cafodd Mair Roberts (Llanefydd) ddychwelyd i'r Hen Ficerdy hefyd a chyflwynwn hithau'r un modd i ofal yr Arglwydd, gan weddio y bydd yn adnabod tangnefedd Duw yn ei chalon.

Taflen Weddi

Eleni, penderfynodd Adran Ysbrydolrwydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru y byddai'r daflen weddi y maen nhw'n ei chyhoeddi yn cynnwys ychydig o wybodaeth a phwyntiau gweddi o'r gwahanol eglwysi trwy Gymru, gyda'r bwriad inni ddod i adnabod ein gilydd ac i adnabod y gweithgarwch yn well. Bydd yn rhaid iddynt gyfyngu oherwydd nifer yr eglwysi, felly, cafwyd y syniad o ymateb fel Gofalaeth er mwyn cynnwys yr holl eglwysi ym Mro Aled. Os oes gennych bwyntiau gweddi yr hoffech i ni eu cynnwys, wnewch chi gysylltu ag Aneurin, Rhodri neu Mair **erbyn dydd Gwener**, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **New Word Alive** ym mharc gwyliau Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA Mawrth 31ain – Ebrill 5ed. Wythnos o wyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.newwordalive.org
- **Oedfa Bore'r Groglith** yn Nantglyn am 10.30. Mae'n fwriad hefyd i gynnal astudiaethau mewn pedwar lleoliad gwahanol yn ystod yr wythnos yn arwain at y Pasg. Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Mawrth 2012

Gwyn ei fyd y sawl...sy'n cael hyfrydwch yng nghyfraith yr Arglwydd ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. (Salm 1:2)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i'r oedfaon! Tybed faint 'dan ni'n ei wybod am Griffith Jones, Llanddowror? I mi, mae Griffith Jones yr un mor bwysig â Williams Pantycelyn a Daniel Rowland a Howell Harris; cewri'r diwygiad yng Nghymru o 1735 ymlaen! Mae hyn yn dipyn o gyfaddefiad i mi, ond does 'na ddim llawer yn cael dod i'r un cwmni â Williams gennyf!

Ond mae gan Griffith Jones le arbennig oherwydd y gwaith arloesol a gyflawnodd trwy nerth Duw yn sefydlu'r Ysgolion Cylchynol trwy Gymru i ddysgu'r werin anlythrennog sut i ddarllen; a darllen Cymraeg, a darllen Cymraeg er mwyn gallu darllen y Beibl, a darllen y Beibl Cymraeg er mwyn iddynt ddod i adnabod Duw a'i iachawdwriaeth yng Nghrist!

Yr oedd ar dân, a hynny cyn berw'r diwygiad. Cyn i'r tyrfaoedd dyrru i wrando ar Rowlands yn Llangeitho ac i'r miloedd ddechrau gorfoleddu wrth ganu emynau Williams, roedd Griffith Jones wedi llafurio'n dawel am oes yn hyfforddi athrawon i ddysgu gwyddor a llythrennedd i blant ac oedolion! Ganrif bron cyn Thomas Charles, fe fyddai Griffith Jones wedi gosod y cysail gogoneddus i'r ymateb ysbrydol a oedd i ddilyn – cael pobl i ddarllen eu Beiblau!

'Chafodd o ddim llawer o help gan y Cymry yn ei ddydd. Nawdd gan Saeson a gafodd. Saeson goleuedig yn rhoi arian i'w alluogi i dalu am lafur y nifer gynyddol o athrawon teithiol oedd eu hangen i gynnal yr Ysgolion. Ysgrifennodd at y cylch o bobl yn Lloegr, a rhai Saeson yng Nghymru i ffurfio 'Cylch Cyfathrebu'. Byddai cyfarfod wyneb yn wyneb wedi bod yn amhosibl yr adeg hynny ond dyma mae'n ei ddweud amdanynt: *"...however distant their place of abode may be, that they might by their correspondence assist and unite their endeavours to carry on this work for God's Honour, the growing success of the Dear Redeemer's kingdom of Grace in the world, and the saving of souls."*

Llwyddodd yn rhyfeddol i sefydlu'r 'cylch' yma o gefnogwyr i'r gwaith – cylch a fyddai'n gweddio ac yn cyfrannu arian tuag at y dasg o ddysgu'r werin a lledaeniad teyrnas gras. Pwy sy'n cefnogi'r gwaith arloesol, Beibl-ganolog a Christ-ganolog yng Nghymru heddiw? Ydan ni'n gwneud digon? Hwyrach mai o lefydd annisgwyl y daw cefnogaeth i'r gwaith hwn eto yn ein cyfnod ni. Diolchwn i Dduw am y cylchoedd gweddi a'r unigolion sy'n ein cefnogi ni yma yn y Fro mewn gair a gweithred – a gwnawn ninnau yr un modd dros eraill sydd â baich gwirioneddol dros dwf teyrnas Gras ein Hanwylid, dros y gwaith o ennill eneidiau, oni ddelo!

Heddiw, nid oes angen dysgu darllen, ond y mae gwir angen annog ein gilydd i ddarllen y Beibl. Cylchoedd o ddarllenwyr – dwy neu dair yn cyd-gyfarfod i ddarllen pennod dros baned – dau neu dri yn darllen hefo'i gilydd cyn gwyllo'r gêm – beth am i ninnau hefyd, fel Griffith Jones, osod cysail o adnabod ein Beiblau ac adnabod y Gair i'r gamp lawn o ennill eneidiau?!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod i aelodau'r Tîm Addoli** yn y Granar am 7.30.
- Mercher • **Adnabod – Noson gymdeithasol** yn Heulfryn, Llansannan am 8.00. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ebrill 1af **Rhaghysbysiad:** Cynhelir Oedfa Gymun am 10.00, ac ar derfyn yr oedfa, bydd Rhodri Glyn a Rhys Dafis yn cael eu derbyn i wasanaethu fel diaconiaid yn Eglwys Hiraethog.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Ebrill 1af **Rhaghysbysiad:** Bydd aelodau Capel Saron yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Sion Aled Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau